# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Family Dental Care

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Dyddiad arolygu: 19 Awst 2019

Dyddiad cyhoeddi: 20 Tachwedd 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhydycar**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu


**Ffôn: 0300 062 8163**

**E-bost: hiw@gov.wales**

**Ffacs: 0300 062 8387**
**Gwefan: www.agic.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-83933-545-7



© Hawlfraint y Goron 2019

## Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom ..... 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ..... 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym ..... 8

Ansawdd profiad y claf ..... 9

Darparu gofal diogel ac effeithiol ..... 15

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ..... 24

4. Beth nesaf? ..... 28

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol ..... 30

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad 31

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol ..... 33

Atodiad C – Cynllun gwella ..... 34

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da**

# Ein gwerthoedd

**Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:**

- **Annibynnol**
- **Gwrthrychol**
- **Gofalgar**
- **Cydweithredol**
- **Awdurdodol**

# Ein blaenoriaethau

**Drwy ein gwaith, ein nod yw:**

| | |
|---|---|
| **Rhoi sicrwydd:** | **Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Family Dental Care yn 26a Heol y Bontfaen Gorllewin, Caerdydd, CF5 5BS, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 19 Awst 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC, sef un a oedd yn arwain yr arolygiad ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC i ba raddau yr oedd y gwasanaeth yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, y Safonau Iechyd a Gofal (2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom fod Family Dental Care yn darparu profiad cadarnhaol i gleifion yn y practis.

Fodd bynnag, nodwyd rhai meysydd i'w gwella er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol yn gyson.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y staff yn gwrtais, yn dangos parch ac yn broffesiynol wrth ymdrin â chleifion
- Roedd gwybodaeth dda am iechyd y geg i blant ac oedolion ar gael yn yr ardal aros
- Roedd system dda ar waith i gasglu adborth gan gleifion a gweithredu arno
- Roedd asesiadau risg cynhwysfawr ar waith er mwyn sicrhau bod y safle a'r arferion clinigol yn addas at y diben
- Roedd mesurau rheoli heintiau priodol ar waith
- Roedd trefniadau rheoli ac arwain da ar waith.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gwelliannau cynnal a chadw yn rhai o'r ardaloedd clinigol
- Rhaid i archwiliadau radiograffeg ddangos a yw ansawdd delweddau yn cydymffurfio â'r safonau gofynnol
- Sicrhau y caiff gwiriadau hanes meddygol llafar â chleifion eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion.

Ceir rhestr lawn o'r gwelliannau yn Atodiad C.

Gwnaethom nodi achosion o dorri rheoliadau yn ystod yr arolygiad hwn mewn perthynas â'r canlynol:

- hyfforddiant – gwelsom nad oedd un o'r nyrs ddeintyddol wedi cwblhau'r nifer gofynnol o oriau (pump) o hyfforddiant gofynnol ar radiograffeg a diogelu rhag ymbelydredd yn ystod ei chylch pum

mlynedd blaenorol o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus, fel yr argymhellir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

- meddyginiaethau brys – gwelsom fod hen gyffuriau brys yn cael eu storio mewn drôr ochr yn ochr â chyffuriau cyfredol, gan olygu y gallai hen gyffuriau gael eu cymysgu a'u rhoi ar ddamwain mewn sefyllfa frys.

Oherwydd yr effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad. Ceir rhagor o fanylion am y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad A.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Family Dental Care yn darparu gwasanaethau i gleifion yng Nghaerdydd a'r cyffiniau. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys chwe deintydd, un hylenydd, tair nyrs ddeintyddol, cydgysylltydd y practis, sydd hefyd yn nyrs ddeintyddol gymwysedig, a thair nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat ac ar ran y GIG.

## Ansawdd profiad y claf

*Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.*

At ei gilydd, gwelsom fod Family Dental Care yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol i gleifion yn y practis a gwelsom fod prosesau addas ar waith i gefnogi hyn.

Roedd amrywiaeth dda o wybodaeth ysgrifenedig am gynnal iechyd da y geg i blant ac oedolion ar gael yn yr ardal aros.

Roedd system dda ar waith yn y practis ar gyfer casglu adborth gan gleifion ac roedd y practis yn monitro ac yn asesu'r gwasanaeth yn barhaus.

Cyn ein harolygiad, gwnaethom ofyn i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Cafwyd cyfanswm o 38 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd y mwyafrif o'r holiaduron a gyflwynwyd wedi'u cwblhau gan gleifion a oedd wedi bod yn defnyddio gwasanaethau'r practis ers mwy na dwy flynedd.

Roedd yr adborth gan y cleifion yn gadarnhaol ar y cyfan; dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn ardderchog neu'n dda iawn.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

*“Mae'n wasanaeth gwych ac mae'r staff yn gyfeillgar”*

*"Maen nhw bob amser yn barod eu cymwynas ac yn darparu gwasanaeth gwych"*

*"Mae pawb yn gyfeillgar yn y practis. Mae'r gwasanaeth yn ardderchog. Rwy'n teimlo'n ffodus iawn i fod yn rhan o'r practis hwn”*

### Cadw'n iach

#### Hybu, diogelu a gwella iechyd

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt am sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach. Roedd

amrywiaeth dda o daflenni gwybodaeth ysgrifenedig ar gael yn yr ardaloedd aros er mwyn i'r cleifion eu darllen a mynd â nhw gyda nhw. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am ofal ataliol ac iechyd y geg da i blant ac oedolion, rhoi'r gorau i smygu a thriniaethau preifat a gynigir gan y practis.

## Gofal ag urddas

Gwelsom amrywiaeth o staff yn siarad â chleifion yn bersonol a dros y ffôn mewn modd cwrtais a phroffesiynol. Yn ddieithriad, roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff wrth ymweld â'r practis.

Cadarnhaodd y staff, pe bai claf am gael sgwrs breifat yna byddai hyn yn digwydd yn un o'r deintyddfeydd a oedd ar gael neu yn ystafell y staff wrth ymyl y dderbynfa. Gwnaethom hefyd nodi y gellir trosglwyddo galwadau rhwng y dderbynfa a'r deintyddfeydd fel y gellir cynnal sgyrsiau preifat â chleifion os oes angen.

Roedd polisi cyfrinachedd a diogelu data cynhwysfawr ar waith yn y practis er mwyn diogelu preifatrwydd y cleifion. Roedd hwn yn ymdrin â materion megis diogelu manylion cleifion, cael gafael ar gofnodion a datgelu gwybodaeth i drydydd partïon.

Gwelsom fod y 9 Egwyddor[1] a ddatblygwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos yn yr ardal aros er mwyn sicrhau bod y cleifion yn ymwybodol o'r safonau gofal y dylent eu cael gan weithwyr deintyddol proffesiynol.

### Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys gymaint ag yr hoffent gael eu cynnwys mewn unrhyw benderfyniadau a wnaed am eu triniaeth. Dywedodd pob un ohonynt hefyd eu bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael.

[1] Mae 9 egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn nodi'r safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg sy'n berthnasol i weithwyr deintyddol proffesiynol yn y Deyrnas Unedig.

Gwelsom fod rhestr prisiau ar gyfer triniaethau preifat a thaliadau ar gyfer deintyddiaeth y GIG wedi'i harddangos ym mhob ystafell aros. Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym fod y gost bob amser yn cael ei hegluro iddynt cyn iddynt gael unrhyw driniaeth.

Roedd copïau o daflen wybodaeth i gleifion y practis ar gael i gleifion yn ardal y dderbynfa ac ym mhob ystafell aros a gwelsom ei bod yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Roedd ffolder polisïau’r practis hefyd ar gael i'r cleifion er mwyn iddynt ymgyfarwyddo â'r hyn y gallant ei ddisgwyl gan y practis. Roedd y ffolder yn cynnwys copi o'r datganiad o ddiben[2], a oedd hefyd yn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau.

Roedd enwau a chymwysterau pob deintydd sy'n gweithio yn y practis wedi'u harddangos y tu allan i'r practis, yn unol â chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Cadarnhaodd y practis fod rhai o'r staff yn gallu darparu gwasanaeth dwyieithog i gleifion Cymraeg. Roedd gan y practis amrywiaeth dda o wybodaeth i gleifion ar gael yn Gymraeg, gan gynnwys y daflen wybodaeth i gleifion a nifer o bolisïau’r practis.

I gleifion nad Cymraeg na Saesneg oedd eu hiaith gyntaf, roedd y gwasanaeth yn hysbysebu gwasanaeth llinell iaith i gleifion mewn amrywiaeth o ieithoedd eraill. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod cleifion yn gallu cael gofal sy'n diwallu eu hanghenion unigol a'u bod yn gallu deall pob agwedd ar eu gofal a'u triniaeth. Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser.

Yn ystod yr arolygiad, adolygwyd sampl o gofnodion cleifion ar gyfer y ddau ddeintydd er mwyn cadarnhau eu bod yn cael eu cadw'n unol â chanllawiau proffesiynol. Gwelsom dystiolaeth o gynlluniau triniaeth ysgrifenedig a oedd yn cynnwys trafodaeth am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael a'r costau dan sylw.

---

[2] Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i bob darparwr gwasanaeth lunio Datganiad o Ddiben a dylai gynnwys manylion penodol am y gwasanaeth, pa driniaethau a roddir, i bwy (oedran), gan bwy ac unrhyw gyfarpar a ddefnyddir.

Mae hyn yn unol ag arfer gorau ac yn golygu bod y cleifion yn cael gwybodaeth ddigonol i'w helpu i wneud dewisiadau hyddysg am eu triniaeth.

## Gofal amserol

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn teimlo ei bod yn hawdd cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin mewn modd amserol. Dywedodd y staff wrthym fod y cleifion yn cael gwybod am unrhyw oedi pan fyddent yn cyrraedd, neu cyn gynted â phosibl wedi hynny. Dywedodd y staff wrthym hefyd eu bod yn gallu cyfathrebu drwy wasanaeth negeseua uniongyrchol rhwng y dderbynfa a'r deintyddfeydd er mwyn sicrhau bod unrhyw oedi'n cael ei gyfleu'n effeithiol.

Gwelsom fod gan y practis bolisi i geisio gweld pob apwyntiad brys o fewn 24 awr. Gwelsom fod manylion am sut i gael gafael ar ofal brys y tu allan i oriau wedi'u harddangos y tu allan i'r practis a dywedwyd wrthym fod yr un wybodaeth ar gael i'r cleifion ar system peiriant ateb y practis. Roedd y manylion hyn yn cynnwys rhifau ffôn deintydd ar alwad y practis ar gyfer cleifion preifat a gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar gyfer cleifion y GIG.

Cadarnhaodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion ond un a gwblhaodd holiadur AGIC fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth. Gwelsom sampl o gofnodion y cleifion a nodwyd gennym eu bod yn cael eu cadw i safon dda ac yn helpu'r practis i ddarparu triniaeth briodol ac effeithiol i'r cleifion.

Roedd y triniaethau a'r gwasanaethau a gynigir gan y practis yn cyd-fynd â datganiad o ddiben y practis.

### Hawliau pobl

Roedd polisi cyfle cyfartal ar waith yn y practis a oedd yn dangos ymrwymiad i sicrhau bod pawb yn cael triniaeth deg. Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010,

roedd y polisi'n cydnabod yr angen i ddarparu gwasanaethau a thriniaethau i bob claf,

beth bynnag fo'i nodweddion gwarchodedig[3].

Roedd gan y practis bolisi cleifion newydd fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau, a oedd yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer derbyn cleifion newydd i'r practis. Roedd copi o'r polisi ar gael i ddarpar gleifion ei ddarllen yn ffolder polisïau’r practis.

O ran mynediad ffisegol, roedd gan y practis faes parcio yng nghefn yr adeilad. Roedd y dderbynfa, un ystafell ardal aros a dwy ddeintyddfa ar gael ar lawr gwaelod yr adeilad. Roedd mynediad ffisegol i'r practis yn gyfyngedig i bobl ag anawsterau symudedd oherwydd y grisiau i'r brif fynedfa. Fodd bynnag, dywedodd y practis wrthym fod cleifion yn gallu defnyddio drws ochr y practis yn yr amgylchiadau hyn.

### Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Gwelsom fod blwch awgrymiadau a ffurflenni adborth papur ar gael yn yr ardal aros er mwyn i gleifion roi sylwadau am eu profiad a chynnig awgrymiadau ar gyfer gwella. Gwelsom dystiolaeth dda iawn bod y practis yn monitro adborth gan gleifion ac yn gwrando arno, e.e. roedd poster ‘Dywedoch chi, gwnaethom ni’ ar flaen pob blwch awgrymiadau er mwyn i'r cleifion weld pa gamau y mae'r practis wedi'u cymryd o ganlyniad uniongyrchol i'w hadborth. Roedd tystiolaeth dda hefyd i ddangos bod adborth yn cael ei drafod yn ystod cyfarfodydd staff a bod y practis yn gweithredu arno.

Roedd y weithdrefn i'w dilyn gan gleifion a oedd am wneud cwyn neu godi pryder am eu gofal wedi'i hamlinellu mewn polisi cwynion, a oedd i'w weld ym mhob ystafell aros. Roedd y weithdrefn yn galluogi'r staff i ymdrin ag unrhyw gwynion o'r fath yn effeithiol ac yn amserol ac roedd yn gyson â chanllawiau Gweithio i Wella[4] y GIG a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Dywedodd

---

[3]Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn drosedd gwahaniaethu yn erbyn rhywun oherwydd nodwedd warchodedig.
https://www.equalityhumanrights.com/en/equality-act/protected-characteristics

[4] Gweithio i Wella yw'r broses ar gyfer rheoli pryderon gan gleifion am ofal a thriniaeth yn GIG Cymru.

rheolwr y practis wrthym nad oedd y practis wedi cael unrhyw gwynion ffurfiol ers iddi ddechrau gweithio yn y practis yn 2017.

## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

At ei gilydd, roedd y practis yn ymrwymedig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Gwelsom fod gweithdrefnau da ar waith ar gyfer glanhau, sterileiddio a storio offer deintyddol yn unol â chanllawiau arfer gorau.

Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cadw i safon dda ac yn cynnwys gwybodaeth berthnasol y cleifion.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, gwelsom fod trefniadau addas ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant staff y practis ac ymwelwyr â'r practis. Roedd gan y practis wahanol bolisïau, gweithdrefnau ac asesiadau risg cynhwysfawr ar waith er mwyn sicrhau bod y safle'n ddiogel ac yn addas at y diben.

Roedd y dderbynfa a'r ardaloedd aros yn groesawgar, yn daclus ac yn ddi-rwystr. Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan y cleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y practis deintyddol yn lân iawn.

Gwelsom fod yr ardaloedd clinigol, at ei gilydd, mewn cyflwr da, ond gwnaethom argymell y dylai'r practis wneud gwelliannau cynnal a chadw yn y meysydd canlynol:

- dylai pob cwpwrdd gael ei archwilio am ddifrod a'i drwsio lle bo angen
- dylid adeiladu blwch o amgylch pob cebl agored er mwyn sicrhau bod modd glanhau'r ardal yn llawn.

Gwelsom fod dyfeisiau diffodd tân priodol ar gael mewn amrywiol leoliadau yn yr adeilad a nodwyd gennym eu bod wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn sicrhau bod yr offer yn gweithio'n briodol. Gwelsom dystiolaeth

bod ymarferion tân wedi cael eu cynnal bob dwy flynedd a bod gwahanol archwiliadau i sicrhau diogelwch rhag tân, gan gynnwys archwiliadau wythnosol o'r drysau tân a'r larymau mwg, yn cael eu cofnodi mewn cofnodlyfr.

Roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd tân ac roedd arwydd dim smygu wedi'i arddangos sy'n atgoffa'r staff a'r cleifion am y ddeddfwriaeth mangreoedd di-fwg[5].

Roedd nifer o asesiadau risg cynhwysfawr wedi cael eu cynnal yn ddiweddar, gan gynnwys tân, anabledd ac iechyd a diogelwch. Gwelsom dystiolaeth bod rhai o'r camau unioni a nodwyd gan yr asesiadau risg wedi cael eu dogfennu yn yr asesiadau risg, ond nid pob un. Byddem yn atgoffa'r practis bod angen iddo sicrhau ei fod yn cofnodi unrhyw gamau unioni a gymerwyd i liniaru'r risgiau a nodwyd yn yr asesiadau risg mewn modd priodol.

Gallai'r staff newid mewn ardal yng nghefn y practis, lle roedd drws â chlo er mwyn diogelu eu preifatrwydd a'u hurddas. Roedd ardal storio fach ar gael er mwyn i'r staff storio eu heiddo personol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis wneud gwelliannau cynnal a chadw cyffredinol i unrhyw gwpwrdd a ddifrodwyd a sicrhau ei fod yn adeiladu blwch o amgylch pob cebl agored.

### Atal a rheoli heintiau

Gwelsom dystiolaeth bod mesurau heintiau a rheoli addas ar waith yn y practis mewn perthynas â glanhau a sterileiddio (dihalogi) offer deintyddol yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05[6]. Roedd yr ystafell ddihalogi ddynodedig yn ymddangos yn lân ac yn daclus ac roedd yna lwybr ddihalogi budr i lân. Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff, a oedd yn

[5] Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2015 – Cafodd deddfwriaeth i wahardd smygu mewn mannau cyhoeddus caeedig ei chyflwyno yn 2007 er mwyn amddiffyn y cyhoedd rhag mwg ail-law.

[6] Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddihalogi mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

ei ddefnyddio wrth weithio yn yr ardaloedd dihalogi er mwyn helpu i leihau'r posibilrwydd y byddent yn dod i gysylltiad â heintiau.

Roedd gan y practis ddau beiriant awtoclaf, yr oedd un ohonynt yn casglu gwybodaeth am gylchred yr awtoclaf drwy gofnodwr data electronig a'r llall drwy argraffydd papur. Gwelsom dystiolaeth o gofnodlyfr a oedd yn cadarnhau bod y staff wedi bod yn cynnal gwiriadau dyddiol ac wythnosol er mwyn sicrhau bod y cyfarpar sterileiddio yn gweithredu'n briodol ac yn bodloni'r gofynion dilysu.

Gwelsom fod y staff yn symud offerynnau glân ac wedi'u defnyddio rhwng y deintyddfeydd a'r ystafell ddihalogi mewn bocsys caeedig er mwyn helpu i atal achosion o groes-halogi ymhellach. Gwnaethom hefyd nodi bod gan y practis ddulliau ac adnoddau priodol i sicrhau bod yr offerynnau'n cael eu sterileiddio ymlaen llaw yn gywir fel rhan o'r broses ddihalogi gyffredinol.

Roedd contract ar waith gyda chwmni rheoli gwastraff proffesiynol ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff (clinigol) peryglus yn ddiogel. Fodd bynnag, rydym yn argymell na ddylai biniau pedal a ddefnyddir i storio gwastraff clinigol gael eu cadw mewn cypyrddau yn y deintyddfeydd, er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.

Yn ystod arolygiad o'r deintyddfeydd gwelsom fod rhywfaint o lwch wedi cronni ar rywfaint o'r cyfarpar. Rydym yn argymell y dylai pob deintyddfa gael ei glanhau'n drylwyr er mwyn cael gwared ar unrhyw lwch a sicrhau bod y broses lanhau hon yn cael ei chynnwys yn y trefniadau glanhau presennol.

Roedd toiledau cleifion a staff ar gael yn y practis. Gwelsom fod biniau cynhyrchion mislif priodol ar gael ym mhob toiled.

Cawsom olwg ar gofnodion y staff a gwelsom fod gan bob aelod o'r staff clinigol sy'n gweithio yn y practis statws imiwneiddio derbyniol rhag Hepatitis B. Roedd hyn yn golygu bod camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod y cleifion a'r staff yn cael eu hamddiffyn rhag y firws hwn a gludir yn y gwaed.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis dynnu'r biniau pedal a ddefnyddir i storio gwastraff cemegol o gypyrddau’r deintyddfeydd.

Rhaid i'r practis sicrhau nad oes unrhyw lwch yn y deintyddfeydd a bod trefniadau glanhau presennol y practis yn cael eu diweddaru i atal llwch rhag cronni yn y dyfodol.

## Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom dystiolaeth bod cyffuriau brys a chyfarpar dadebru brys ar gael yn y practis a oedd yn cyrraedd safonau'r Cyngor Dadebru (DU)[7]. Roedd yr holl eitemau yn ardal newid y staff wrth ymyl y dderbynfa lle gallai'r staff gael gafael arnynt yn hawdd mewn argyfwng. Gwelsom fod y practis yn storio pecynnau chwistrellu glwcagon[8] mewn oergell dan glo a gwnaethom argymell y dylai'r rhain gael eu storio gyda'r cyffuriau brys eraill gan y byddai'r clo ar yr oergell yn arafu'r broses o gael gafael arnynt. Cafodd hyn ei ddatrys ar ddiwrnod yr arolygiad.

Gwelsom dystiolaeth bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal o'r cyffuriau a'r cyfarpar brys er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn ddiogel i'w defnyddio, a bod y gwiriadau hynny'n cael eu dogfennu. Roedd hyn yn cynnwys tystysgrif gwasanaethu ddilys ar gyfer silindrau ocsigen y practis.

Fodd bynnag, wrth gael ein tywys o amgylch y practis gwelsom fod yr hen gyffuriau brys i gyd yn cael eu storio mewn drôr wedi'i nodi'n briodol ochr yn ochr â'r cyffuriau cyfredol. Gall hyn beri risg y caiff yr hen gyffuriau eu cymysgu neu eu rhoi ar ddamwain mewn argyfwng.  Rydym yn argymell y dylai'r practis adolygu ei bolisi ar waredu cyffuriau brys. Aeth y practis ati'n syth yn ystod yr arolygiad i dynnu'r drôr a threfnu i'r hen gyffuriau gael eu gwaredu.

Roedd gan y practis bolisi ar waith ar gyfer dadebru a rheoli argyfyngau meddygol yn unol â'r canllawiau cenedlaethol ar ddadebru. Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cyfredol ar ddadebru cardio-anadlol brys (CPR).

Roedd naw aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf er mwyn sicrhau y gellir trin unrhyw unigolion yn y practis y mae angen cymorth cyntaf arnynt yn briodol.

---

[7] https://www.resus.org.uk/quality-standards/primary-care-equipment-and-drug-lists/

[8] Defnyddir glwcagon mewn sefyllfaoedd brys i drin plant ac oedolion â diabetes sy'n defnyddio inswlin ac sy'n cael pwl hypoglycemia.

Roedd y staff yn ymwybodol o'r angen i roi gwybod i'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) am unrhyw adweithiau niweidiol i feddyginiaethau neu ddyfeisiau meddygol a brofwyd gan gleifion drwy'r Cynllun Cerdyn Melyn[9], er mwyn helpu'r MHRA i fonitro a yw cynhyrchion gofal iechyd yn cyrraedd lefelau diogelwch derbyniol i gleifion a'r rheini sy'n eu defnyddio.

Nodwyd gennym hefyd fod padiau presgripsiwn yn cael eu cadw'n ddiogel er mwyn lleihau'r risg y gellid cael gafael ar gyffuriau presgripsiwn yn anghyfreithlon a'u camddefnyddio.

> Yr hyn sydd angen ei wella
>
> Rhaid i'r practis adolygu ei bolisi sy'n manylu ar y trefniadau ar gyfer storio a gwaredu hen gyffuriau brys yn ddiogel.

### Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Roedd gan y practis bolisi diogelu cyfredol ar waith ar gyfer amddiffyn plant ac oedolion diamddiffyn a oedd yn cynnwys gweithdrefnau i'r staff eu dilyn pe bai unrhyw bryderon ynghylch diogelu. Roedd y polisi'n cynnwys manylion cyswllt er mwyn i'r staff roi gwybod yn briodol i'r asiantaethau diogelu lleol perthnasol am unrhyw bryderon.

Y prif ddeintydd oedd arweinydd diogelu y practis, a oedd yn gyfrifol am oruchwylio materion diogelu. Cadarnhaodd rheolwr y practis fod gwybodaeth am faterion diogelu yn cael ei rhannu drwy sesiynau sefydlu a hyfforddiant. Gwelsom fod y staff naill ai wedi cwblhau hyfforddiant ffurfiol ar ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed yn ddiweddar, neu wedi trefnu i wneud hynny yn fuan.

Nid oedd gan y practis gopi o Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008, sy'n nodi'r canllawiau cenedlaethol ar gyfer diogelu plant a hyrwyddo eu lles ledled Cymru. Argymhellwn y dylai'r practis gael copi o'r gweithdrefnau ac y dylai'r aelodau o'r staff sicrhau eu bod yn ymgyfarwyddo â'r cynnwys er mwyn deall y dull gweithredu cenedlaethol mewn perthynas â diogelu plant.

---

[9] https://yellowcard.mhra.gov.uk/the-yellow-card-scheme/

## Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Gwnaethom archwilio'r cyfleusterau clinigol yn y practis a gwelsom fod y cyfarpar deintyddol ym mhob deintyddfa wedi cael ei gynnal a'i gadw'n dda a'i fod mewn cyflwr da.

Cawsom olwg ar y trefniadau sydd ar waith ar gyfer defnyddio cyfarpar radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel a gwelsom fod y practis yn cydymffurfio â rhai o'r canllawiau a bennwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) (IR(ME)R) 2017. Dyma'r rhesymau dros hyn:

- roedd polisi ymbelydredd cynhwysfawr ar waith
- roedd y cyfarpar pelydr-X wedi cael ei wasanaethu'n rheolaidd ac roedd ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd ar gael a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol mewn perthynas â defnyddio a chynnal a chadw'r cyfarpar pelydr-X yn ddiogel
- roedd rheolau lleol[10] wedi'u harddangos wrth ymyl y cyfarpar pelydr-X er mwyn nodi'r gweithdrefnau ymarferol i sicrhau y cyfyngir ar amlygiad staff i ymbelydredd.

Fodd bynnag, gwelsom dystiolaeth o farciau crafu ar un o blatiau'r synhwyrydd pelydr-x a oedd wedi effeithio ar ansawdd rhai o'r delweddau radiograffeg a welsom. Rhaid i'r practis adolygu cyflwr platiau'r synhwyrydd pelydr-x yn rheolaidd a sicrhau bod rhai newydd yn cael eu gosod pan fo angen.

Er i ni weld tystiolaeth bod y delweddau radiograffeg wedi cael eu harchwilio a'u graddio gan ddeintyddion, nid oedd yr archwiliad yn dangos nac yn pennu a oedd ansawdd y delweddau yn cydymffurfio â'r safonau gofynnol (70% ardderchog, 20% derbyniol a dim mwy na 10% yn annerbyniol).

Gwelsom hefyd nad oedd un o'r nyrsys deintyddol wedi cwblhau'r nifer gofynnol o oriau (pump) o hyfforddiant gofynnol ar radiograffeg a diogelu rhag

[10] Cyfres o reolau a phrotocolau ar gyfer y practis yw rheolau lleol, sy'n helpu staff i ddilyn y rheoliadau ym maes deintyddiaeth.

ymbelydredd yn ystod ei chylch pum mlynedd blaenorol, fel yr argymhellir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Gwnaethom godi hyn yn ystod yr arolygiad a chawsom dystiolaeth drannoeth fod y nyrs ddeintyddol wedi cwblhau hyfforddiant priodol a digonol ar radiograffeg a diogelu rhag ymbelydredd ers hynny.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod unrhyw archwiliadau radiograffeg a gynhelir yn dangos a yw ansawdd y delweddau yn cydymffurfio â'r safonau gofynnol.

Rhaid i'r practis hefyd adolygu cyflwr platiau'r synhwyrydd pelydr-x yn rheolaidd a sicrhau bod rhai newydd yn cael eu gosod pan fo angen.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd yn amlwg bod y practis yn ceisio darparu gofal diogel a chlinigol effeithiol. Mae'r practis wedi cynnal amrywiaeth o archwiliadau clinigol er mwyn gwella'r gofal a ddarperir, ac mae'n parhau i wneud hynny.

Gwelsom dystiolaeth bod archwiliad wedi'i gynnal bob blwyddyn i sicrhau bod y practis yn cydymffurfio â chanllawiau arfer gorau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 ar ddihalogi, a bod y newidiadau a argymhellwyd yn dilyn yr archwiliad hwn wedi cael eu rhoi ar waith. Nodwyd gennym fod hyn yn arfer da.

Ymhlith yr archwiliadau eraill a gynhaliwyd yn y practis roedd archwiliad o nodiadau clinigol a rhagnodi gwrthficrobaidd. Dywedodd staff y practis wrthym eu bod yn bwriadu cynnal archwiliad o gyfraddau rhoi'r gorau i smygu cyn diwedd y flwyddyn er mwyn sicrhau ansawdd y gofal a'r driniaeth a ddarperir ymhellach.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Dywedwyd wrthym y byddai gwaith adolygu cymheiriaid yn digwydd rhwng staff clinigol y practis a staff clinigol practis arall yn yr ardal ar ddiwedd 2019. Bydd hyn yn gymorth pellach i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Gwelsom dystiolaeth dda bod y practis yn defnyddio adnodd datblygu practisau Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth Addysg a Gwella Iechyd Cymru, sy'n annog tîm deintyddol y practis i gydweithio er mwyn nodi meysydd allweddol i'w gwella yn seiliedig ar ganllawiau proffesiynol a gofynion deddfwriaethol.

Gwelsom enghreifftiau o gofnodion o bob cyfarfod a myfyrdodau ar ddefnyddio'r adnodd.

Hefyd, dywedodd rheolwr y practis wrthym ei fod yn rhan o gynllun Denplan Excel ac yn gweithio tuag at gynllun Arfer Dda Cymdeithas Ddeintyddol Prydain, sef rhaglen sicrhau ansawdd sy'n anelu at sefydlu arferion da mewn perthynas â chyfrifoldebau proffesiynol a chyfreithiol i dimau deintyddol.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gan y practis bolisi diogelu data ar waith yn nodi'r gweithdrefnau ar gyfer diogelu gwybodaeth cleifion a rheoli cofnodion cleifion yn ddiogel yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu storio'n electronig ar gyfrifiaduron a ddiogelir gan gyfrinair. Caiff copïau wrth gefn o'r cofnodion electronig eu gwneud yn rheolaidd a'u cadw oddi ar y safle fel y gellir adfer y data gwreiddiol pe bai rhywbeth yn digwydd i'r practis neu'r system ac na allai'r staff gael gafael arnynt mwyach.

Gwelsom fod hanesion meddygol cychwynnol a hen gofnodion papur yn cael eu storio'n ddiogel er mwyn atal mynediad heb awdurdod.

### Cadw cofnodion

Gwelsom dystiolaeth o gofnodion da yn y sampl o gofnodion y cleifion a welsom, a oedd yn helpu'r practis i ddarparu gofal o ansawdd i'r cleifion ac yn helpu i hybu llesiant a diogelwch y cleifion. Y rheswm dros hyn yw bod y cofnodion a welsom:

- yn glir, yn ddarllenadwy ac yn dogfennu trafodaethau a gafwyd â chleifion am gostau, risgiau a manteision yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael iddynt
- yn cynnwys tystiolaeth bod pob claf wedi rhoi cydsyniad i gael triniaeth
- yn cynnwys cyfiawnhad wedi'i ddogfennu'n glir o'r rhesymau dros gymryd pelydrau-X ai peidio.

Gwelsom fod rhai anghysondebau wrth gofnodi a diweddaru hanesion meddygol yng nghofnodion y cleifion. Rhaid i bob deintydd sicrhau bod gwiriadau hanes meddygol ar lafar yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion yn unol â gofynion canllawiau proffesiynol.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod pob deintydd yn cofnodi unrhyw wiriadau hanes meddygol a gwblhawyd ar lafar gyda'r cleifion yn ystod pob apwyntiad yn briodol yng nghofnodion y cleifion.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.*

Gwelsom dystiolaeth o reolaeth ac arweinyddiaeth dda a oedd yn amlwg drwy gyfarfodydd staff rheolaidd ac arfarniadau staff blynyddol.

Roedd y staff yn cydweithio'n dda ac roeddent yn cael y cyfleoedd hyfforddi priodol i'w galluogi i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Mae ystod eang o bolisïau ac archwiliadau wedi'u rhoi ar waith er mwyn helpu i fonitro a sicrhau ansawdd gofal y cleifion a gwaith y tîm.

Mae angen goruchwyliaeth bellach er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau'r hyfforddiant gorfodol.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Y prif ddeintydd sy'n berchen ar Family Dental Care, ac ef yw'r unigolyn cyfrifol[11] a'r rheolwr cofrestredig hefyd[12]. Caiff y prif ddeintydd ei gefnogi gan gydgysylltydd y practis a thîm ehangach o staff clinigol ac anghlinigol, y mae rhai ohonynt wedi bod yn gweithio i'r practis ers nifer o flynyddoedd.

---

[11] Ystyr unigolyn cyfrifol yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall y sefydliad sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ffordd y caiff practis deintyddol preifat ei reoli (Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017).

[12] Ystyr rheolwr cofrestredig yw rhywun sydd wedi'i gofrestru o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 fel rheolwr practis deintyddol preifat.

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir. Gwelsom fod y staff yn cydweithio'n dda, ac roedd tystiolaeth o hyn i'w gweld wrth iddynt ryngweithio â'r cleifion, a thrwy eu cydweithrediad a'u hagwedd drwy gydol y broses arolygu.

Fel y soniwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, gwelsom dystiolaeth dda bod y practis yn defnyddio adnodd datblygu practisau Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth Addysg a Gwella Iechyd Cymru, sy'n annog tîm deintyddol y practis i gydweithio er mwyn nodi meysydd allweddol i'w gwella.

Roedd amrywiaeth eang o bolisïau a gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Gwelsom fod y polisïau wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd yn unol â'r rheoliadau a bod y staff wedi cael gwybod amdanynt yn ystod eu proses sefydlu. Fodd bynnag, ni allem fod yn siŵr bod pob aelod o'r staff wedi darllen a deall pob polisi ac unrhyw ddiweddariadau. Rydym yn argymell y dylai'r practis roi system newydd ar waith i fonitro a sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi darllen a deall pob polisi ac unrhyw ddiweddariadau.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'u cofrestru i ymarfer â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemniad priodol ar waith ar eu cyfer.

Gwelsom fod tystysgrifau wedi'u harddangos a oedd yn dangos bod gan y practis yswiriant atebolrwydd cyhoeddus er mwyn amddiffyn y practis rhag hawliadau am iawndal a chostau cyfreithiol cysylltiedig a bod y practis wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu gwasanaethau deintyddol preifat.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis roi system newydd ar waith i fonitro a sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi darllen a deall pob polisi ac unrhyw ddiweddariadau dilynol.

## Staff ac adnoddau

### Y Gweithlu

At ei gilydd, roedd trefniadau llywodraethu addas ar waith yn y practis. Roedd gan y staff gontract cyflogaeth a disgrifiadau swydd a oedd yn nodi eu rolau a'u cyfrifoldebau a gwelsom fod y rhain yn cael eu cadw yn ffeiliau'r staff. Caiff aelodau newydd o'r staff raglen hyfforddiant sefydlu a chyfnod prawf.

Gwelsom dystiolaeth bod gan bob aelod o'r staff Gynllun Datblygiad Personol ar waith a bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar amrywiaeth o byrsiau a oedd yn berthnasol i'w rolau er mwyn helpu i fodloni gofynion DPP.

Fel y soniwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, gwelsom dystiolaeth nad oedd un o'r nyrsys deintyddol wedi cwblhau'r nifer gofynnol o oriau o hyfforddiant gofynnol ar radiograffeg a diogelu rhag ymbelydredd. Rhaid i'r practis sicrhau bod ganddo system ar wahân i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau'r hyfforddiant gorfodol. Ceir manylion am y ffordd y cafodd ein pryderon ynglŷn â'r mater hwn eu datrys yn Atodiad A.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod arfarniadau'n cael eu cynnal gyda phob aelod o'r staff bob blwyddyn er mwyn rhoi adborth i'r staff ar eu perfformiad ac adolygu unrhyw gyfleoedd pellach ar gyfer DPP.

Cynhelir cyfarfodydd practis yn rheolaidd er mwyn galluogi'r staff i nodi gwersi a ddysgwyd a chodi unrhyw broblemau a allai fod ganddynt. Caiff cofnodion eu cymryd o bob cyfarfod a'u hanfon at bob aelod o'r staff er mwyn sicrhau bod unrhyw aelodau o'r staff a oedd yn absennol yn ymwybodol o'r hyn a drafodwyd.

Dywedwyd wrthym bod y practis yn llwyddo i sicrhau bod nifer priodol o staff cymwys yn gweithio yn y practis bob amser, heb fod angen cyflogi nyrsys deintyddol locwm dros dro.

Roedd polisi recriwtio ar waith a oedd yn nodi'r broses i'w dilyn wrth recriwtio darpar aelodau newydd o'r staff ac roedd yn cynnwys gwiriadau cyn-cyflogi priodol y byddai'r practis yn eu cynnal er mwyn sicrhau bod aelodau newydd o'r staff yn meddu ar y cymwysterau addas ac wedi'u diogelu'n addas er mwyn gweithio gyda chleifion.

Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol, ar adeg cofrestru, i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru feddu ar Dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a gyhoeddwyd o fewn y tair blynedd flaenorol. Gwelsom dystiolaeth bod gwiriadau clirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cynnal ar gyfer y staff clinigol a'r staff anghlinigol er mwyn helpu i sicrhau diogelwch y cleifion a'r staff.

Roedd gan y practis bolisi chwythu'r chwiban (lleisio barn) ar waith a oedd yn galluogi'r staff i godi unrhyw bryderon am arferion gwaith a allai effeithio ar ofal y cleifion. Roedd y polisi'n cynnwys trefniadau cyfeirio clir ar gyfer codi pryderon yn fewnol ac yn allanol, ond argymhellwn y dylid diweddaru'r polisi chwythu'r chwiban er mwyn rhestru AGIC fel sefydliad chwythu'r chwiban penodol y gall y staff gysylltu ag ef os bydd ganddynt unrhyw bryderon.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis ddiweddaru ei bolisi chwythu'r chwiban i gynnwys manylion cyswllt AGIC fel sefydliad chwythu'r chwiban penodedig y gall staff gysylltu ag ef os bydd ganddynt unrhyw bryderon.

# 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rhoddwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os byddwn yn nodi unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, hysbysir darparwr cofrestredig y gwasanaeth drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach

- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried i ba raddau y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 2017, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2000 ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae’r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Gwelsom dystiolaeth nad oedd un o'r nyrsys deintyddol wedi cwblhau'r nifer gofynnol o oriau (pump) o hyfforddiant gofynnol ar radiograffeg a diogelu rhag ymbelydredd yn ystod ei chylch pum mlynedd blaenorol, fel yr argymhellir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.<br><br>Roedd y nyrsys deintyddol wedi cwblhau chwe awr o hyfforddiant ar radiograffeg a diogelu rhag ymbelydredd ers 2008. | Mae gan weithwyr deintyddol proffesiynol cofrestredig ddyletswydd i gynnal eu gwybodaeth a'u sgiliau er mwyn sicrhau y gallant ddarparu'r driniaeth a'r gofal gorau posibl i gleifion. | Gwnaethom godi ein pryderon â'r practis yn ystod yr arolygiad a gofyn am i hyn gael ei unioni ar unwaith. | Yn ystod yr arolygiad creodd y practis restr wirio er mwyn monitro cydymffurfiaeth y tîm deintyddol yn y dyfodol â gofynion hyfforddiant gorfodol fel sy'n ofynnol gan eu cyrff proffesiynol, deddfwriaeth gyfredol, safonau a chanllawiau ar arferion gorau.<br><br>Cawsom hefyd dystiolaeth drannoeth fod y nyrs ddeintyddol wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol ar radiograffeg a diogelu rhag ymbelydredd ers hynny. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwelsom fod yr hen gyffuriau brys i gyd yn cael eu storio mewn drôr ochr yn ochr â'r cyffuriau cyfredol. | Gall hyn beri risg y caiff yr hen gyffuriau eu cymysgu neu eu rhoi ar ddamwain mewn argyfwng. | Gwnaethom godi ein pryderon â'r practis yn ystod yr arolygiad a gofyn am i hyn gael ei unioni ar unwaith. | Aeth y practis ati'n syth yn ystod yr arolygiad i dynnu'r drôr a threfnu i'r hen gyffuriau gael eu gwaredu. |

# Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

## Gwasanaeth: Family Dental Care

## Dyddiad arolygu: 19 Awst 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr adolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd | Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw faterion brys yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth:

## Enw (priflythrennau):

## Teitl swydd:

## Dyddiad:

# Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Family Dental Care

## Dyddiad arolygu: 19 Awst 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n rhaid eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Ni nodwyd unrhyw welliannau ar gyfer yr adran hon. | | | | |
| **Darparu gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Rhaid i'r practis wneud gwelliannau cynnal a chadw cyffredinol i unrhyw gwpwrdd a ddifrodwyd a sicrhau ei fod yn adeiladu blwch o amgylch pob cebl agored. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017<br><br>Rheoliadau 13(5) a 22(2a) | Gwaith cynnal a chadw cyffredinol – roedd cwpwrdd newydd wedi'i archebu yn lle'r un a ddifrodwyd cyn yr arolygiad, ond nid oedd wedi cyrraedd eto.<br><br>Mae blwch wedi'i adeiladu o amgylch pob cebl agored. | Anoushka Wickramasinghe | Cwblhawyd |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Rhaid i'r practis dynnu'r biniau pedal a ddefnyddir i storio gwastraff cemegol o gypyrddau'r deintyddfeydd. | | Mae'r biniau pedal bellach wedi'u tynnu o gypyrddau'r deintyddfeydd. | Anoushka Wickramasinghe | Cwblhawyd |
| Rhaid i'r practis sicrhau nad oes unrhyw lwch yn y deintyddfeydd a bod trefniadau glanhau presennol y practis yn cael eu diweddaru i atal llwch rhag cronni yn y dyfodol. | | Diweddarwyd gweithdrefn hylendid y ddeintyddfa ac ychwanegwyd yr angen i dynnu llwch oddi ar wyneb cypyrddau'r ddeintyddfa. | Anoushka Wickramasinghe | Cwblhawyd |
| Rhaid i'r practis hefyd adolygu ei bolisi a'i drefniadau ar gyfer storio a gwaredu hen gyffuriau brys. | Safonau Iechyd a Gofal 2015<br>Safon 2.6 | Cafodd yr hen gyffuriau eu gwaredu ar ddiwrnod yr arolygiad. Ar adeg yr arolygiad roedd gennym gontract ag Initial i waredu hen gyffuriau yn ddiogel. | Anoushka Wickramasinghe | Cwblhawyd |
| Rhaid i'r practis sicrhau bod unrhyw archwiliadau radiograffeg a gynhelir yn dangos a yw ansawdd y delweddau yn cydymffurfio â'r safonau gofynnol. | Safonau Iechyd a Gofal 2015<br>Safon 2.9 | Roedd ansawdd y delweddau radiograffeg wedi'i gyfrifo ond heb ei nodi fel canran. Bydd y practis yn sicrhau ein bod yn cyfrifo canran ar gyfer yr archwiliad o ansawdd y delweddau. | Anoushka Wickramasinge | Cwblhawyd |
| Rhaid i'r practis hefyd adolygu cyflwr platiau'r synhwyrydd pelydr-x yn rheolaidd a sicrhau bod rhai newydd yn cael eu gosod pan fo angen. | | Drwy gynnal cofnodion dyddiol ac archwilio ansawdd y delweddau'n rheolaidd, bydd gradd 3 yn nodi pan fydd angen gosod platiau newydd yn y synhwyrydd pelydr-x. | Anoushka Wickramasinghe | Cwblhawyd |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Rhaid i'r practis sicrhau bod pob deintydd yn cofnodi unrhyw wiriadau hanes meddygol a gwblhawyd ar lafar gyda'r cleifion yn ystod pob apwyntiad yn briodol yng nghofnodion y cleifion. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017<br>Rheoliadau 20(1(ii)) | Atgoffwyd y deintyddion i gofnodi gwiriadau hanes meddygol llafar a gwblheir ym mhob apwyntiad. Dylid archwilio'r cofnodion yn rheolaidd er mwyn sicrhau y caiff hyn ei wneud i safon uchel. | Anoushka Wickramasinghe | Cwblhawyd |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Rhaid i'r practis roi system newydd ar waith i fonitro a sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi darllen a deall pob polisi ac unrhyw ddiweddariadau dilynol. | Safonau Iechyd a Gofal 2015<br>Safon 7.1 | Mae llawlyfr staff sy'n cynnwys yr holl bolisïau a gweithdrefnau perthnasol wedi cael ei roi ar waith. Mae pob aelod o'r staff wedi darllen y polisïau ac wedi llofnodi i ddangos eu bod wedi eu deall. | Anoushka Wickramasinghe | Cwblhawyd |
| Rhaid i'r practis ddiweddaru ei bolisi chwythu'r chwiban i gynnwys manylion cyswllt AGIC fel sefydliad chwythu'r chwiban penodedig y gall staff gysylltu ag ef os bydd ganddynt unrhyw bryderon. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017<br>Rheoliad 17(3e) | Diweddarwyd y polisi chwythu'r chwiban ac ychwanegwyd manylion cyswllt AGIC. | Anoushka Wickramasinghe | Cwblhawyd |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau): Anoushka Wickramasinghe**

**Swydd: Rheolwr Cofrestredig**

**Dyddiad: 07 Hydref 2019**